**(HCC 761)**

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.00am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, ddydd Iau 6 Mai 2017**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | Kevin Roberts (Cadeirydd Dros Dro)<br>Gareth Wynn Davies, Huw Davies, John Davies, Illtud Dunsford, Helen Howells, Barrie Jones, Rachael Madeley Davies, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams |
| **Trwy Wahoddiad:** | Gareth Wilson (Llywodraeth Cymru) |
| **Y Weithrediaeth:** | Gwyn Howells (Prif Weithredwr)<br>Jo Horder (Ysgrifenyddiaeth) |
| **Tîm Rheoli Eitemau 6 & 7:** | Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)<br>Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)<br>Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)<br>Owen Roberts (Arweinydd Cyfathrebu) |

1. **Croeso ac Adroddiad y Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Rhoddwyd diweddariad ynghylch penodi Cadeirydd HCC. Roedd cyfweliadau wedi eu cynnal ar 27 Mehefin 2017 a rhoddwyd argymhellion i'r Ysgrifennydd Cabinet. Roedd disgwyl penderfyniad ynghylch penodiad cyn bo hir.

Er mwyn i'r Bwrdd gael y diweddaraf am ddatblygiadau, roedd y Cadeirydd wedi ystyried gwneud galwadau ffôn aml-wrando rhwng cyfarfodydd deufisol y Bwrdd. Cytunwyd y byddai'r rhain yn dechrau yn ystod hydref 2017.

Oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd, roedd y Cadeirydd wedi mynychu amryw o gyfarfodydd a oedd yn berthynol i Ymadael â'r UE, wedi hybu gwaith ar Famwladoli Ardoll ac wedi cyfarfod â'r Ysgrifennydd Cabinet i drafod cais HCC am gyllid allforio.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau eu nodi ar gyfer y cyfarfod o'r Bwrdd.

4. **<u>I dderbyn a mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 11 Mai 2017 (HCC 750)</u>**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 11 Mai 2017 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **<u>Materion yn codi</u>**

*<u>Adolygiad o Ystodau Pwysau Ŵyn Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ)</u>*

Roedd prif amcan yr uchod yn canolbwyntio ar a oedd ystodau pwysau SQQ ar hyn o bryd yn briodol. Roedd yr adborth a gafwyd yn awgrymu y byddai angen ystyried dewisiadau eraill. Rhagwelwyd y ceid ymgynghori ar y mater gyda'r diwydiant yn ystod hydref 2017.

Câi hyn ei adolygu gan y tîm Rheoli a cheid adrodd cyfatebol.

*<u>Y Grŵp Iechyd a Lles Gwartheg (CHAWG) a'r Grŵp Iechyd a Lles Defaid (SHAWG)</u>*

Roedd HCC yn bresennol yng nghyfarfod SHAWG ar 23 Mehefin 2017. Roedd y cyfarfod yn gyfle i glywed y drafodaeth ar faterion yn Lloegr. Yn bennaf, roedd y drafodaeth mewn perthynas â gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) i edrych ar ddarparu adborth gan y lladd-dai i broseswyr a negesau allweddol am ymwrthedd i wrthfiotigau a sut y gellid trosglwyddo'r negesau hyn i ffermwyr.

6. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

Ymunodd y tîm Rheoli â'r cyfarfod.

a. *<u>Adroddiad Gweithgareddau (HCC 751)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.
Tynnodd y Cadeirydd sylw at y newidiadau a wnaed i'r adroddiad gweithgareddau er mwyn strwythuro'r cynnwys yn unol â'r camau gweithredu a mesuriadau o Gynllun Gweithredol HCC 2017 / 2018.

Diweddarwyd y Bwrdd gan y tîm Rheoli ynghylch gweithgareddau allweddol HCC yn ddiweddar.-

***<u>Datblygu'r Farchnad</u>***

Nodwyd bod HCC wedi cymryd rhan yn y digwyddiadau 'Masnach yn y Farchnad Fyd-eang' a drefnwyd gan Gyswllt Ffermio. Er bod nifer y bobl a fynychodd y digwyddiadau yn siomedig, cawsant dderbyniad da ac ysgogwyd trafodaeth dda.

Roedd HCC yn dal i weithio ar y cyd â Chyswllt Ffermio er mwyn cael gwell cydlyniad o ran amseru, cynnwys a chyd-ddarpariaeth ac i gael gwell cysylltiad ynghylch canolbwyntio ar y farchnad a gweithgareddau ffermio.

Roedd HCC wrthi'n datblygu nifer o ffyrdd cymharol rad o wneud gwaith hyrwyddo – gan gynnwys fideos a ffrydio byw. Roedd cyfres o fideos yn cael eu cynhyrchu i'w defnyddio ar lwyfannau gwahanol. Roedd asiantau tramor yn enwedig yn defnyddio fideos yn amlach ac roedd Denmarc wedi cynnwys ffrydiau byw o dri lleoliad yng Nghymru i ddangos ansawdd a thryloywder yn y gadwyn fwyd.

***Cyfathrebu***

Diweddarwyd y Bwrdd ynghylch gweithgareddau i ddatblygu ymgysylltiad gwell byth â ffermwyr ifainc. Bu'r Arweinydd Cyfathrebu yng nghyfarfod Pwyllgor Materion Gwledig CFfI i drafod syniadau. Roedd diddordeb mewn cael rhaglen lysgenhadol ar y cyd â HCC. Roedd disgwyl ymateb gan CFfI. Y camau nesaf fyddai ystyried ffyrdd eraill o ymgysylltu â ffermwyr ifainc, megis Llysgenhadon Ifainc y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol (NSA) a mentrau Datblygu i'r Ieuenctid Undeb Amaethwyr Cymru ac NFU Cymru.

***Datblygu'r Diwydiant***

Roedd Ysgoloriaeth HCC wedi denu pum ymgeisydd o safon dda. Roedd y cyfweliadau wedi eu cwblhau a châi enwau'r Ysgolorion llwyddiannus eu cyhoeddi yn Sioe Frenhinol Cymru.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 752)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. *Digwyddiadau i ddod (HCC 753)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

d. *I gael manylion am bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 24 – 27 Gorffennaf 2017*

Trafodwyd gweithgareddau a digwyddiadau cyfryngol ar gyfer y Sioe. Roedd y rhain yn cynnwys y digwyddiadau ar y stondin Corfforaethol ac ar y stondin Datblygu'r Diwydiant, gweithgareddau gyda mân-werthwyr a thrafodaethau â'r cyfryngau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyhoeddusrwydd.

Hefyd, trafodwyd cyfleoedd i'r Bwrdd roi cymorth ac ymgysylltu â thalwyr Ardoll a chodi eu proffil fel Cyfarwyddwyr Anweithredol HCC. Roedd trefniadau mewn llaw i'r Bwrdd gael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Cabinet,

ynghyd â chyfle i dynnu llun ar ôl Brecwast HCC, yn ogystal â'r syniad o gael sesiynau "galw-mewn" ar y naill stondin a'r llall fel bod y Bwrdd yn cael cyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Cyn y Sioe, rhoddid papur briffio i'r Bwrdd am weithgareddau HCC a sut i ymdrin â materion cyfredol sy'n ymwneud â'r diwydiant.

e. *<u>I Dderbyn Cynllun Gwaith i'r Bwrdd ar gyfer 2017 / 2018 (HCC 754 )</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Roedd y Cynllun Gwaith yn nodi'r dyddiadau ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd allweddol o'r Bwrdd a'r Pwyllgorau ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol. Nodwyd y gellid cael rhai ychwanegiadau neu newidiadau i'r dyddiadau Pwyllgorau o bryd i'w gilydd.

Gofynnodd y Bwrdd a fyddai'n bosibl cael mwy o hyblygrwydd o ran y dyddiadau Pwyllgorau. Câi hyn ei ystyried gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr,

**<u>Papurau er gwybodaeth</u>**

f. *<u>Cynhyrchu a Marchnata Ŵyn Ysgafn a Thra Ysgafn o Gymru (HCC 755)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Cafodd yr adroddiad hwn ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ŵyn Ysgafn ar 28 Mehefin 2017. Cafodd y Grŵp ei friffio am gefndir yr adroddiad a'r materion roedd yn mynd i'r afael â nhw. Ar y cyfan, cafodd yr adroddiad ei dderbyn, ond roedd peth anfodlonrwydd i dderbyn y newidiadau yn y marchnadoedd a llai o gyfleoedd i farchnata ŵyn ysgafn.

Yr her bellach fyddai parhau i drosglwyddo'r negesau a'r argymhellion yn yr adroddiad er mwyn cael derbyniad a chefnogaeth ar draws y diwydiant.

g. *<u>Pwysigrwydd dal i gael Mynediad i Farchnadoedd yr UE</u>*

Cymerwyd bod yr adroddiad wedi'i ddarllen.

h. *<u>Patrymau masnachu cig defaid y DG</u>* (*<u>HCC 757)</u>*

Cymerwyd bod yr adroddiad wedi'i ddarllen.

7. **<u>I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid</u>**

Dywedodd y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol fod Desg Gymorth EIDCymru, yn dilyn cyfnod tawelaf y flwyddyn o ran symudiadau defaid, yn

paratoi ar gyfer y cyfnod prysuraf. Cafodd rhagor o staff tymhorol eu cyflogi'n rhan-amser i gynorthwyo yn ystod y cyfnod hwn.

8. **<u>I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain</u>**

Yn dilyn cytundeb i neilltuo £2m yn flynyddol, roedd HCC a QMS wedi llunio cynigion i symud ymlaen â'r mater gyda AHDB.

Roedd Amodau Gorchwyl drafft yn cael ei datblygu ar gyfer y Grŵp Llywodraethiant. Roedd y grŵp i fod i gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2017 i drafod y ffordd ymlaen.

9. **<u>Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg</u>**

a. *<u>I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 26 Mehefin 2017</u>*

Cafodd y Bwrdd adroddiad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor.

Roedd y Pwyllgor wedi cael adroddiad am ganfyddiadau archwilio Swyddfa Archwilio Cymru (WAO). Ni chafodd unrhyw faterion eu hadrodd gan WAO, a oedd yn bwriadu cyflwyno adroddiad archwilio glân.

b. *<u>I dderbyn crynodeb o'r pwyntiau allweddol yn y Datganiadau Ariannol 2016 / 2017 (HCC 758)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Cyflwynwyd Datganiadau Ariannol 2016 / 2017 a chrynodeb o'r pwyntiau allweddol i'r Bwrdd.

Croesawodd y Cadeirydd ganlyniad yr adroddiad a dderbyniwyd gan yr archwilwyr, a oedd wedi rhoi adborth positif ynghylch y modd roedd y tîm Cyllid wedi darparu'r wybodaeth ofynnol.

c. *<u>I dderbyn a chymeradwyo'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2016 - 2017 (HCC 759)</u>*

Cymerwyd bod y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2016 / 2017 wedi eu darllen a chawsant eu cymeradwyo gan y Bwrdd, ynghyd â'r llythyr sylwadau.

10. **<u>Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu</u>**

*<u>I gael adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Mawrth 27 Mehefin 2017</u>*

Cafodd y Bwrdd adroddiad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor:-

Roedd y Pwyllgor wedi adolygu'r Amodau Gorchwyl ac nid oedd unrhyw newidiadau i'w nodi.

Roedd y Pwyllgor wedi trafod nifer o bwyntiau allweddol, gan gynnwys defnyddio adnoddau cyfathrebu yn effeithiol, cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i wella negesau allweddol a chydgysylltu gweithgareddau cyfathrebu, cyfleoedd i'r Bwrdd gefnogi amcanion HCC a datblygu protocolau cyfryngau cymdeithasol i wneud hyn.

O ran defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, byddai'r Pwyllgor yn gwerthuso defnydd aelodau'r Bwrdd o'r maes hwn ynghyd â gwrthdaro buddiannau. Trwy wneud hyn, gellid llunio canllawiau polisi ar ddefnyddio'r llwyfannau hyn mewn ffordd briodol o ran gwybodaeth HCC.

Bu'r Bwrdd yn trafod cyfleu gwybodaeth i Aelodau'r Bwrdd ac awgrymwyd y byddai system mynediad canolog ar-lein yn help i gyflawni hyn.

11. **Pwyllgor Datblygu Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth**

*a. I gael adroddiad llafar am y Pwyllgor Datblygu Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Mehefin 2017*

Cafodd y Bwrdd adroddiad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor:-

Cafodd y cyfarfod drosolwg o'r prosiectau Ymchwil a Datblygu cyfredol. Roedd HCC ar hyn o bryd yn ymwneud â nifer o brosiectau mawr a oedd yn dangos bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n fanteisiol. Mynegodd y Pwyllgor awydd i wneud mwy o ymchwil y tu hwnt i'r fferm pe bai arian ar gael.

*b. I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Y&D a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Mawrth 2017 (HCC 760)*

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Y&D a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Mawrth 2017 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

12. **Unrhyw fater arall**

*Pwyllgorau HCC*

Cytunwyd y câi'r broses o adrodd ar Bwyllgorau HCC i'r Bwrdd ei hadolygu gan y Weithrediaeth maes o law.

13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Iau 7 Medi 2017.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**